

ARDAL GADWRAETH SAUNDERSFOOT



ARFARNIAD A CHYNLLUN RHEOLI

Canllawiau Cynllunio Atodol

**Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Dyddiad Cymeradwyo ar gyfer Ymgynghori: 15 Medi 2021
Dyddiad Mabwysiadu: 26ain Hydref 2022**

Introduction	2
The Planning Policy Context	4
Historic Development and Archaeology	5
Character Analysis.....	9
The Conservation Area and its Setting.....	10
Building Materials	14
Landscape and Seascape Setting.....	23
Local Guidance and Management Proposals.....	27
New Development within the Conservation Area	34
Appendix A: National Legislation, Policy and Guidance	37


Cyflwyniad

1. Roedd cyflwyno Ardaloedd Cadwraeth yn deillio o'r ymwybyddiaeth gynyddol y gallai ardaloedd cyfan fod o ddiddordeb a gwerth yn ogystal ag adeiladau a choed unigol. Fe'u cyflwynwyd ym 1967 ac maent bellach yn dod o dan Ddeddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol bennu a dynodi 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad fel Ardaloedd Cadwraeth.
2. Dynodwyd craidd pentref Saundersfoot yn Ardal Gadwraeth yn 1995 a chafodd yr ardal ei hehangu yn 2002. Ar ôl eu dynodi, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth rhag datblygiad niweidiol, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y polisiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Mae dyletswydd arnynt hefyd i adolygu ffiniau a nodi mesurau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth.

Gweler Map 1 drosodd.

3. Yn ychwanegol at y cyfyngiadau cyffredinol ar ddatblygiad a ganiateir ar draws y Parc Cenedlaethol, mae canlyniadau dynodiad Ardal Gadwraeth yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad i ddymchwel rhai adeiladau/nodweddion ffiniau a'r gofyniad i hysbysu'r Awdurdod o gynigion sy'n effeithio ar rai coed.
4. Pwrpas arfarniad Ardal Gadwraeth yw diffinio rhinweddau'r ardal sy'n ei gwneud yn deilwng o statws Ardal Gadwraeth. Bydd hyn yn rhoi sail gadarn ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu ac ar gyfer mentrau gwella. Bydd hefyd yn galluogi datblygu fframwaith polisi cadarn ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol, a fydd yn sail ar gyfer ystyried cynllunio a cheisiadau a chynigion eraill ar gyfer newid.
5. Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel a ganlyn:-
 - Arfarniad o'r nodweddion amrywiol sy'n rhoi ei diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig i Ardal Gadwraeth Saundersfoot; y rhagdybiaeth yw eu bod yn cael eu cadw neu eu gwella fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.
 - Cynllun rheoli yn nodi cynigion a all wella cymeriad ac ymddangosiad Ardal Gadwraeth Saundersfoot.
6. Daw'r rhanddeiliaid perthnasol o'r sectorau preifat a chyhoeddus a bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan y ddau.

**Saundersfoot
Ardal Gadwraeth
Dynodwyd 1995
Diwygiwyd 2002
MAPIAU 1**



- Ardal Gadwraeth/Arddeddi Cymraed
- Adeliadau Rhestredig
- Cyfe i wella'r adeliad
- Gorchymyn Cadw Coed/Coed sy'n bwysig i'r herriad
- Henebion Rhestredig
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Ardal Cadwroeth Arbennig
- Adeliadau Tiroed
- Adeliadau Ynni Posibl
- Cwrtiau/Rhyntadau Adweddi
- Arddeddi Agored Harffodol
- Cyfe i wella'r (daeangart)/cwti/ffynfardau seipau
- Cyfe i Wella'r Ardal
- Cyfe i Wella Nodweddion yn y Maes Cyhoeddus

Golygfis allwedd:

- 1 Golygfeydd i lawr Church Terrace tuag at All San Ffraid sydd wedi'i orchuddio â choed
- 2 Golygfeydd o'r môr o Bwynt Monkton i Maron a golygfeydd yn y pellter o Benthyn Gŵyr
- 3 Golygfeydd panoramig o'r môr
- 4 Golygfeydd tuag at y pentir gan gynnwys caeau a chipolwg ar Gastell Hean, Golygfeydd yn y pellter o'r arfordir a Summerhill
- 5 Golygfeydd dros y lan gresiglog tuag at yr arfordir

Cipolwg ar a gwrthrych/tiroed/pwnt ddi-ddordeb

- 1 Cipolwg tuag at All San Ffraid a choed y tu hwnt
- 2 Cipolwg trwy ddyffryn cul yr afon

Saundersfoot Bay



Cyd-destun y Polisi Cynllunio

7. Mae Atodiad A i'r Canllawiau hyn yn nodi crynodeb o'r ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae Polisi 8 Rhinweddau Arbennig y Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu ar gyfer amddiffyn rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Paratoir y canllaw hwn i gefnogi'r polisi hwnnw yn benodol maen prawf b) sy'n ceisio sicrhau na cholir hunaniaeth a chymeriad trefi a phentrefi.

Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg

8. Mae'r enw yn deillio o'r enw personol Saunders (Walter Elisandr oedd yn rhedeg melin yn yr ardal yn 1330), a 'foot' sy'n cyfeirio at waelod y bryn neu'r clogwyn. Yn 1595, cyfeirir at yr anheddiad yn gyntaf fel 'Saundersfoote', pan oedd yr hanesydd George Owen yn trafod y gwelyau glo lleol niferus.
9. Trwy gydol yr Oesoedd Canol roedd yr anheddiad bach wedi'i leoli yng nghwmwd Coedrath, coedwig helaeth a maes hela leirll Normanaidd Penfro, mae'n debyg bod ffocws y boblogaeth wedi'i ganoli ar yr eglwys gyfagos yn St Issells.
10. Er bod glo yn cael ei gloddio yn Coedrath gerllaw yn 1324, ni sylweddolwyd faint oedd gwerth y glo caled lleol tan ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Yn ystod 1681-90, cloddiwyd tua 20,000 tonn o lo caled, allforiwyd llawer ohono i'r Iseldiroedd, Ffrainc, Portiwgal, a'r Taleithiau Baltig a'i ddefnyddio'n bennaf ar gyfer bragu. Cynyddodd y ffigwr i 30,000 tonn erbyn 1748. Ar y dyddiad hwn, roedd llawer o'r glo yn cael ei gludo allan trwy'r Cleddau o Gei Cresswell a phorthladdoedd bach eraill a'i drosglwyddo i longau mwy mewn porthladdoedd dyfnach, e.e. Cei Lawrenni, yn hytrach na chael ei gludo o Saundersfoot ei hun.
11. Erbyn y 1820au roedd yna gystadleuaeth gynyddol o byllau glo Sir Gaerfyrddin a de ddwyrain Cymru. Sicraodd Syr Richard Bulkeley Philipps, a wnaeth olynu Ystâd leol Picton, Ddeddf Seneddol yn 1829, a sefydlu Cwmni Rheilffordd a Phorthladd Saundersfoot. Cynigiodd y Cwmni newydd gysylltu'r pwll glo yng Nghapel Thomas i'r gogledd orllewin, a phwll glo Moreton oedd llawer agosach trwy reiliau tram oedd yn cael eu tynnu gan geffylau â phorthladd newydd yn Saundersfoot. Byddai llinell arall yn cael ei hadeiladu i'r gogledd o'r harbwr ar hyd yr arfordir i Wisemans Bridge.
12. Cwblhawyd yr harbwr (a ddyluniwyd gan R. W. Jones o Gasllwchwr) a'r rheiliau tram rhwng 1831 a 1836. Roedd hwn yn ymgymeriad diwydiannol trawiadol a rhyfeddol o gynnar o'i fath, a thwnelwyd llawer o'r llinellau am bellteroedd sylweddol. Disgynnodd y rheilffordd o'r gogledd orllewin, i'r pentref trwy blân ar oledf hir, gyda thramiau wedi'u cysylltu gan gadwyni, ac ar gopa'r llethr serth mae'r tŷ troellog yn dal i sefyll. Roedd pwysau'r tramiau llawn ar y ffordd i lawr yn gyrru'r tramiau gwag ar eu taith yn ôl i fyny.
13. Roedd y defnydd o beiriannau stêm ar gyfer pwmpio a chodi glo, yn caniatáu i wythiennau glo dyfnach gael eu cloddio ac agorwyd pyllau glo newydd, yn nodedig yr un yn Bonville's Court yn 1842, (lle mae rhai o'r adeiladau gwreiddiol yn dal i sefyll) a Glofa Grove yn 1850 yng Nghilgeti, tua 2 filltir i ffwrdd.
14. Yn yr un cyfnod, roedd Thomas Stokes o Gastell Hean yn cloddio am fwyn haearn yn ogystal â glo. Sefydlwyd gwaith brics yn Wiseman's Bridge yn 1850 ac yn 1847 sefydlwyd gwaith haearn yn Stepside gerllaw. Erbyn yr 1870au, roedd y rheilffordd yn cael ei gweithredu â stêm, gan ddefnyddio locomotifau 'saddleback', gan gynnwys y 'Bulldog' a'r 'Rosalind'.

15. Er bod y gystadleuaeth o faes glo De Cymru yn tyfu, parhaodd Saundersfoot fel harbwr allforio glo pwysig trwy ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd nes cau Bonville's Court, yn 1930. Er gwaethaf adfywiad dros dro rhai pyllau llai ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd mwyngloddio masnachol lleol wedi dod i ben erbyn tua 1950. Roedd nifer o berchnogion tai yn parhau i gloddio at ddibenion domestig yn unig.
16. Roedd cynnwys carbon uchel ac allbwn mwg isel y glo caled lleol, yn ei wneud yn gynnyrch gwerthfawr ar gyfer bragu a phweru agerlongau ac injans. Fodd bynnag, roedd ei galedwch yn golygu ei fod yn anodd ei losgi ar dân agored. Y traddodiad lleol, tan ymhell i'r 1950au oedd gwneud 'peli' trwy gymysgu glo bach (cwlwm) â mwd aber neu glai cae, gan alluogi tân coginio cyson na chaniatawyd iddo fynd allan yn aml - sy'n cael ei gydnabod gan lawer fel rhagflaenydd tanwydd di-fwg modern.
17. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladwyd nifer o longau yn yr harbwr, gyda'r llong olaf yn cael ei hadeiladu yn y 1860au. Roedd yna ddwy iard saer llongau ar Stryd y Rheilffordd (Y Strand). Roedd anghenion llongau a'r rheilffordd yn cael eu gwasanaethu gan y ffowndri a'r gofaint lleol. Mae safle'r efail gof bellach yn gartref i'r Clwb Hwyllo.
18. Cofnodir gwesty - y Milford Arms - yn 1680, y mae'n debyg ei bod wedi'i hymgorffori yng Ngwesty'r Cambrian, pan adeiladwyd Teras Cambrian yn tua 1863. Yn y 1820au dywedir nad oedd yna fwy na hanner dwsin o dai a dau westy yn Saundersfoot.
19. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda thwf y diwydiant glo, dechreuodd y pentref dyfu. Mae Map Degwm 1842 yn dangos yr harbwr a'r Rheilffyrdd yn eu lle, ond gyda phatrwm o dai syfrdanol o ar hap o hyd, a gafodd ei fewnlenwi a'i ehangu'n raddol wrth i'r boblogaeth gynyddu.
20. Roedd y tai cynharach ar hyd y ffyrdd o Bonvilles Court yn cynnwys Rose Cottage, a hefyd o Eglwys Sant Issell. Yn 1837, ail-aliniwyd y Stryd Fawr gydag adeiladau newydd ar ei phen isaf, gan fabwysiadu ffrynt Rose Cottage i ddiffinio ei llwybr. Roedd llwybrau'r rheilffyrdd hefyd yn rhoi hwb i adeiladu tai, i'r gogledd ar hyd Stryd y Rheilffordd (y Strand bellach) ac i'r gorllewin ar hyd Stryd Milford. Cafodd y ddwy stryd eu hadeiladu yn y 1850au. Oddi ar Stryd Milford, gosodwyd Teras Milford yn 1850 fel bythynnod gweithwyr statws uchel gan Gymdeithas Adeiladu Saundersfoot. Ar ôl 1859, symudwyd y ffordd tua'r dwyrain i ddarparu gerddi ffrynt hael i'r tai. Ni adeiladwyd teras cyfatebol i'r gorllewin, oherwydd naill ai'r costau neu'r safle serth. Roedd bythynnod y glöwr ar hyd Stryd y Rheilffordd yn llawer llai, gan wynebu'n uniongyrchol y stryd yr oedd y dramffordd yn rhedeg ar ei hyd ar ei ffordd i Bont Wisemans.



Ffigwr 1 - Tai pwll glo o ddechrau'r 19eg ganrif



Ffigwr 2 - Tai pwll glo o ganol y 19eg ganrif

21. Ymhlith yr adeiladau sylweddol mae Tafarn Castell Hean a adeiladwyd yn blaen yn tua 1840 a'i hailfodelu yn tua 1875 mewn steil Gothig Tuduraidd. Hanner ffordd i lawr y Stryd Fawr, roedd y llinell wedi'i thorri gan Gapel yr Annibynwyr, a adeiladwyd yn 1837 a'i haddasu yn 1899. Adeiladwyd y Capel Wesleiaidd yn 1892 ar safle uchel ym mhen isaf y Gefnffordd, tra codwyd Capel y Bedyddwyr Hebron ar ben Teras yr Eglwys yn 1854 a'i ailadeiladu yn 1881.
22. Roedd ardal fawr glan y môr yn byrlymu gyda gweithgarwch diwydiannol. Roedd yn ardal wastad agored lle'r oedd y ddwy dramffordd yn cydgyfarfod cyn mynd i mewn i'r harbwr. Yn ogystal â'r harbwr ei hun, y prif beth i oroesi yw'r Swyddfa Glo o'r bedwaredd ar bymtheg hwyr. Hefyd yn amlwg mae 'Bwrdd y

Capten' a adeiladwyd mewn arddull Gothig Tuduraidd fel Tŷ Sant Issells gan Charles Vickerman o Gastell Hean, a oedd wedi sefydlu Cwmni Haearn a Glo Sir Benfro yn 1847.

23. Er gwaethaf ffyniant diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd canol y pentref wedi tyfu i raddau helaeth, ac nid oedd ardaloedd mawr o'r Stryd Fawr a Milford Street / Terrace wedi'u datblygu fel ardaloedd agored dymunol, tan dwf yr ugeinfed ganrif - a dyna'r rheswm am y cyferbyniad cryf rhwng y datblygiad traddodiadol hŷn a'r datblygiad mwy modern.
24. Ailenwyd Stryd y Rheilffordd yn fawreddog yn "The Strand" mewn ymgais i hybu delwedd y pentref yn 1950, pan ddatgymalwyd y rheilffyrdd o'r diwedd. Cynigiwyd llawer o ddatblygiad modern yn y 1950au a'r 1960au, ar ffurf fflatiau a siopau isel, rhai ar lan y môr. Gwrthwynebwyd llawer o'r cynigion, ond mae Llys Beddoes a'r Arcêd Ddifyrion yn ddau o oroeswyr y cyfnod hwn. Roedd cynigion aflwyddiannus eraill yn cynnwys ailddatblygu'r Strand, a chreu promenâd 50 troedfedd o led ar ei glan y môr.
25. Ailadeiladwyd y morglawdd ei hun yn 1964 - mae'r gorchudd concrit ar waliau isaf yr harbwr a phennau'r pier yn perthyn i'r cyfnod hwn. Cafodd gwaith ailadeiladu ei wneud ar y Mur Gorllewinol a'r Cei yn 1969-70. Mae gwaith ailadeiladu, cryfhau a gwaith arall bron i gyd wedi dileu'r dystiolaeth o orffennol yr harbwr, mae'r teclyn codi a llwytho a'r bont bwysu wedi hen ddiflannu. Ar hyn o bryd, mae ardal yr harbwr yn cael ei hailddatblygu i wella cyfleusterau hamdden, gan gynnwys gwell angorfeydd, llithrfa allanol, canolfan forol, dec digwyddiadau a chanolfan dreftadaeth.



Ffigwr 3 - Canolfan Forol yn cael ei hadeiladu

Dadansoddiad o Gymeriad

26. Mae cymeriad Saundersfoot wedi'i gysylltu'n gynhenid a'i hanes a datblygiad.
- Mae'r Ardal Gadwraeth o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol ac yn cadw llawer o dystiolaeth o'i gorffennol diwydiannol.
 - Mae cynllun craidd y pentref yn cynnwys hen dai diwydiannol, wedi'u gwasgaru ymhlith adeiladau allweddol yn cynnwys capeli a gwestai.
 - Mae'r harbwr yn parhau i gael ei ddefnyddio'n weithredol (hamdden).
 - Mae'r craidd masnachol yn gwasanaethu cefnwlod eang ac mae'n rhan allweddol o ddiwydiant twristiaeth y sir.
 - Mae'r Ardal Gadwraeth mewn lleoliad arfordirol hardd sydd ag archaeoleg ddiwydiannol bwysig.
 - At ei gilydd, mae cymeriad yr adeiladau yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda mewnlennwedd diweddarach yn yr ugeinfed ganrif. Mae'r palet pensaernïol yn syml ar y cyfan, ac yn cynnwys gwaith rendro wedi'i baentio, ffenestri codi a thoeon llechi. Mae gan adeiladau mwy gymeriad pensaernïol cryfach, gan gynnwys yr adeiladau 'Tuduraidd-gothig' a godwyd i'r teulu Vickerman
27. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys 22 o **Adeiladau Rhestredig**. Dangosir y rhain ar y map Ardal Cymeriad, ynghyd ag **adeiladau tirnod** ac **adeiladau cadarnhaol** (adeiladau allweddol heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth). Mae'n anochel bod yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys nifer o nodweddion lleol, gan gynnwys arosfannau'r injans stêm a'r rheiliau wedi'u castio'n lleol.
28. Mae'r map hefyd yn nodi **cwrtillau/ffryntiadau allweddol** (gan gynnwys waliau a rheiliau), **ardaloedd agored hanfodol** a **choed/grwpiau o goed pwysig**.

Yr Ardal Gadwraeth a'i Lleoliad

29. Yn nodweddiadol mae tai teras ac adeiladau masnachol yn wynebu'r strydlun, gyda'r ardal harbwr fawr yn ffurfio ardal agored gyferbyniol i'r de ddwyrain. Trwy'r ardal adeiledig mae yna **adeiladau tirnod** statws uwch. Mae'r rhain yn cynnwys tri chapel, pob un gyda'i gwrth blaen nodweddiadol. Ar raddfa fwy mae Bwrdd y Capten (Tŷ Sant Issells gynt) a'r Swyddfa Glo, sy'n cadw rhywfaint o'u cwrtlau mwy hanesyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n rhai deulawr, gyda Theras Cambrian ar glan y môr yn codi i dri llawr.



Ffigwr 4 - Adeilad Tirnod

30. Mae rhai adeiladau'n **Rhestredig**, gan gynnwys Gwesty amlwg Castell Hean, hen Westy'r Cambrian a 1-7 Teras Milford. Un o'r adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi yw Rose Cottage ar y Stryd Fawr sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae llawer o **adeiladau cadarnhaol** heb eu rhestru wedi'u nodi o ran eu cyfraniad i'r strydlun.
- 31.



Ffigwr 5 - adeilad cadarnhaol



Ffigwr 6 - Bwthyn

32. Mae'r Stryd Fawr, Teras y Bragdy, Teras Cambrian a'r Strand yn cynnwys cymysgedd o dai a siopau, gyda Theras Milford a Theras yr Eglwys yn breswyl yn bennaf. Mae graddfa gymharol fach y siopau yn rhoi camargraff o wreiddiau Saundersfoot fel pentref glofaol bach, gyda llawer ohonynt yn cael eu trosi o dai domestig.
33. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac maent fel arfer yn syml o ran eu manylion a'u maint. Mae gan rai o'r adeiladau statws uwch fanylion Tuduraidd-Gothig syml, fel yr oedd Charles Vickerman o Gastell Hean yn ei ffafrio. Mae nifer o reiliau (a wnaed yn lleol) a muriau terfyn wedi goroesi, ac wedi'u nodi fel **cwrttilau/ffryntiadau allweddol**.



Ffigwr 7 - cwrttilau hanesyddol

34. Mae archaeoleg ddiwydiannol y pentref yn hynod bwysig, mae'r rheiliau tram hanesyddol sy'n cysylltu â'r harbwr yn pennu patrwm yr anheddiad. Mae Stryd Milford yn dilyn llwybr y rheilen tram i lofeydd i'r gorllewin, trwy'r plân ar oledd, sydd, ynghyd â'i dŷ troellog, yn Heneb Gofrestredig. Mae'r Strand (yn hanesyddol, Stryd y Rheilffordd) yn dilyn y llwybr gogleddol i'r pyllau glo, y gwaith brics a'r gwaith haearn yn ardaloedd Pont Wisemans/Cilgeti/Stepaside. Mae tri thwnnel wedi goroesi trwy'r clogwyni ar hyd llwybr yr arfordir, gan ddarparu cyferbyniad dramatig rhwng y golygfeydd naturiol a'r strwythurau dynol.



Ffigwr 8 - Y Strand (yn dilyn llinell llwybr tramffordd y gogledd)

35. Er bod yr Ardal Gadwraeth wedi'i datblygu'n gymharol drwchus, mae topograffi'r pentref yn caniatáu amrywiaeth o **olygfeydd a chipolygon allweddol** o'r harbwr, y traeth a'r arfordir pell, a nodwyd ar Fap 1. Un o'r golygfeydd mwyaf deniadol yw'r un o'r môr o'r Stryd Fawr.



Ffigwr 9 -Yr olygfa o'r môr o'r Stryd Fawr

36. Yn yr Ardal Gadwraeth, mae **ardaloedd agored hanfodol** wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ardal yr harbwr, maes parcio'r harbwr gyda'i rodfa a'i seddi ar lan y môr, a'r Ardd Synhwyrdd, cafodd yr olaf ei chreu gan y gymuned leol. Mae rhai ardaloedd agored preifat yn bodoli, gan ddarparu meddalau derbyniol iawn, gan gynnwys gerddi uchaf Teras Milford, tiroedd Capel Wesley, y clogwyn ar hyd Teras Wogan a'r ardal werdd ar gyffordd Teras Wogan a Lôn Frances.



Ffigwr 10 - Yr Ardd Synhwyrdd

37. Mae nifer o **goed/grwpiau o goed** yn bwysig i gymeriad yr ardal, gan gynnwys y rhai ger yr harbwr, y coed ffawydd hyfryd ar Deras Milford, a'r grŵp ar Lôn Frances. Mae yna nifer o nodweddion lleol, yn fwyaf arbennig y rheiliau haearn, a wnaed yn lleol yn Ffowndrïau Woodside a Stepside.



Ffigwr 11 - Coed ffawydd, Teras Milford

38. O ran tir y cyhoedd, mae rhan fwyaf y strydoedd wedi'u palmantu'n dda gyda slabiau/sets concriid. Roedd hyn yn ganlyniad cynllun gwella cymunedol, mae'r dodrefn stryd, yr arwyddion a'r goleuadau wedi goroesi, mae gan bob un ohonynt gymeriad ychydig yn forwrol.
39. Mae'r ffactorau negyddol yn cynnwys:-
- Y defnydd o ddeunyddiau, dyluniadau a manylion modern amhriodol.
 - Toreth o arwyddion masnachol amhriodol ac ymwithiol.
 - Mae yna faterion rheoli traffig, gan gynnwys tagfeydd yn ystod adegau prysur, gwrthdaro rhwng cerbydau a cherddwyr a phario cyfyngedig.

Deunyddiau adeiladu

Walïau

- Mae bron pob adeilad o rwbel tywodfaen lleol, wedi'u rendro a'u peintio'n bennaf, mae'r traddodiad o liwiau pastel yn dyddio o ganol yr ugeinfed ganrif.

- Rhywfaint o fanylion styco wedi'u mowldio (mowldiau capan, conglfieini) a rhywfaint o greigwaith, e.e. Rose Cottage, Gwesty Castell Hean
- Ychydig bach o naddiadau brics (e.e. Moorcroft)



Ffigwr 12 - Ffrynt nodweddiadol mewn cyflwr da



Ffigwr 13 - manylion styco wedi'u mowldio

Ffenestri

- Newidiwyd y mwyafrif ohonynt yn yr ugeinfed ganrif. Yn draddodiadol, ffenestri codi pren 12 cwarel sy'n llithro'n fertigol, pedwar panel o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiladau mwy fel Bwrdd y Capten a Gwesty Castell Hean gyda physt ffenestri pren a ffenestri chroeslath. Rhai ffenestri bae ar ogwydd.



Ffigwr 14 - ffenestr godi draddodiadol gyda 12 chwarel



Ffigwr 15 - ffenestr godi draddodiadol gyda 4 chwarel

Drysau

- Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo wedi cael drysau newydd, ond mae rhai drysau pren hanesyddol 6 a 4 panel wedi goroesi.



Ffigwr 16 - drws 6 panel, Rose Cottage



Ffigwr 17 - drws 4 panel, Y Strand

Toeau

- Y mwyafrif yn doeau llechi naturiol (yn hanesyddol o ogledd Cymru); to rhesog ar Dŷ Wogan.
- Teils crib plaen/gorgyffyrddol yn bennaf; rhai cribau coch
- Rhai byngalos dormer talcennog hanesyddol gydag ymylon bondo ar adeiladau mwy.



Ffigwr 18 - To rhesog



Ffigwr 19 - byngalo dormer traddodiadol

- Yn bennaf simneiau brics gyda phennau corbelog; rhai yn eithaf addurniadol.
- Simneiau mwy addurnol ar rai adeiladau (pelydr terracotta addurniadol ar Dŷ Wogan; fflwiau paladrog ar Fwrdd y Capten).
- Cyn simdde carreg cynharach ar yr hen dai diwydiannol ar y Strand.



Ffigwr 20 - Corn simdde brics corbelog traddodiadol



Ffigwr 21 - Simnai brics Fictoraidd



Ffigwr 22 - Simnai paladrog



Ffigwr 23 - potiau terracotta

Ffiniau

- Mae gan sawl adeilad muriau terfyn neu reiliau haearn gyr/ haearn bwrw sy'n diffinio cyrtiau blaen neu erddi. Yn nodweddiadol mae'r rhain yn cynnwys muriau bach wedi'u rendro gyda rheiliau 'hanner' o batrymau amrywiol. Gwnaed y mwyafrif, os nad y cyfan, yn Ffowndri Stepside, ac yn ddiweddarach, yn Ffowndri Woodside.
- Mae rhai muriau cerrig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi goroesi, gan gynnwys yr un ar gyffordd y Stryd Fawr a Theras Milford.



Ffigwr 24 - rheiliau haearn gyr



Ffigwr 25 - rheiliau haearn bwrw

Gosodiad y Dirwedd a'r Morlun

39. Mae traeth Saundersfoot yn gorwedd o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.
40. Mae Asesiad Cymeriad Tirwedd Dros Dro Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020) yn nodi bod y pentref yng nghanol ardal ehangach o dir ffermio a choetir deniadol, ynghyd â gwerth uchel y nodweddion hanesyddol ac archaeolegol a gofnodwyd, yn enwedig creiriau'r diwydiant glo. Mae Asesiad Cymeriad Morlun Dros Dro Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn nodi ffocws y pentref yng nghanol arfordir creigiau Carbonifferaidd Uchaf o glogwyni, glannau creigiog, mân bentiroedd a thraethau, gan arsylwi hefyd hanes diwydiannol Saundersfoot a'r cyffiniau. Mae'r asesiadau ill dau yn nodi'r newidiadau a ddaeth yn sgil datblygu a thwristiaeth, ond yn dod i'r casgliad bod cymeriad 'tref glan môr' hanfodol yr anheddiad yn parhau.
41. Mae'r **golygfeydd amlwg** i'r ardal gadwraeth yn amrywio'n ddramatig, gyda golygfeydd o'r môr o'r Stryd Fawr a Heol Stammers. O'r gogledd mae yna olygfeydd ar draws y pentref tuag at St Brides Hill, y gefnlen wedi'i gorchuddio â choed yn frith o ddatblygiad maestrefol. O St Brides Hill mae yna olygfeydd panoramig dros yr ardal gadwraeth, gyda golygfeydd pell deniadol o'r pentiroedd arfordirol. O ardal allanol yr harbwr mae yna olygfeydd ar draws y strydlun gyda Chastell Hean i'w weld yn y pellter.



42.

43. Ffigwr 26 - yr olygfa o St Bride's Hill


Mae Map 2 dros y dudalen yn crynhoi'r golygfeydd amlwg i'r Ardal Gadwraeth.

44. O'r Ardal Gadwraeth ei hun mae yna nifer o **olygfeydd allweddol**. Mae'r rhain yn cynnwys golygfeydd o Deras Wogan tua'r môr o Monkstone i Marros, gyda golygfeydd pell o Benrhyn Gŵyr, a golygfeydd o oleufa'r harbwr tuag at bentiroedd yr arfordir a Chastell Hean. Mae'r rhain wedi'u nodi ar y map mewnosodedig.
45. Hefyd i'w gweld ar y map mewnosodedig mae **cipolygon allweddol** o'r tu mewn i'r Ardal Gadwraeth tuag at wrthrychau/tirnodau/pwyntiau o ddiddordeb.



Ffigwr 27 -Cipolwg o Lôn Frances

Map o Olygfeydd Amlwg o Saundersfoot




Saundersfoot Ardal Gadwraeth Dynodwyd 1995 Diwygiwyd 2002 MAPIAU 2

1. Golygfa o ben y Stryd Fawr tuag at y môr, wedi ffurfio gan Byrsadau'r stryd.
2. Golygfa o ben Wagon Teraos tuag at San Ffraid dros Cambrian Terrace, gyda'r cefndir wedi'i archuddio â choed yn frith o ddatblygladu maestrefol.
3. Golygfa banorwig o'r Ardal Gadwraeth a'r baeth o San Ffraid, yn edrych ar draws yr harbor a'r pentref cyfan gyda golygfeydd amlwg o bentroedi arfordrol.
4. Golygfeydd tuar mór o Stammers Road, golygfeydd i lawr tuag at yr harbor dros y pentref gyda chefnid arfordrol a tharwedd gwych, gan gynnwys Castell Hean ymhlith y coed.
5. Golygfeydd o'r Ardal Gadwraeth o'r harbor yn dangos canol y pentref gyda choed yn gefndir ac ym Gapel Coedwadi a Helzon, belyd olygfeydd gwledig tuag at Gwstle Hean.
6. Golygfeydd o'r Ardal Gadwraeth o'r môr yn dangos pentref mewn lleoliad tswedd gwych.



Saundersfoot

Ardaloedd anghysbell sy'n bwysig i leoliad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth



Saundersfoot Ardal Gadwraeth Dynodwyd 1995 Diwygwyd 2002 MAPIAU 3

- A. Golygfydd yn y pellter at lethrau arfordirol, golygfydd tuag at Summerhill a Llanrath.
- B. Pwnt Coppet Hall gan gymwys caeau agored, parodir a choetir gyda chipohwg ar Gastell Hean. Twneli rheilffordd sy'n hanesyddol bwysig a nodweddion cysylltiedig.
- C. Churcton: Eglwys y Plwyf Canoloesol ymhlith golygfydd llyfryd. Tir fferm a choedwigoedd ystâd o bwysigrwydd hanesyddol.
- D. Datblygiad maestrefol glan môr y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif yng nghanol lleoliad coediog gwych.
- E. Coetir ac arfordir o bwys hanesyddol yn gefndir pwysig i'r pentref.

Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

46. Gall addasiadau modern amhriodol effeithio'n andwyol ar ymddangosiad golygon adeiladau a gallant hefyd fod yn niweidiol yn gorfforol i'r adeiladwaith hanesyddol. Ymhlith y nodweddion gwreiddiol pwysig sydd dan fygythiad gan addasiadau o'r fath y mae blaenau siopau, ffenestri codi pren, drysau a chasinau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, nwyddau dŵr glaw, a photiau a chyrn simnai. Mae'n bwysig, felly, fod perchnogion a deiliaid eiddo yn atgyweirio a newid y nodweddion hyn yn y ffordd gywir. Mae'r manylion bach sydd wedi cronni ar y strydlun yn rhan annatod o'i gymeriad ac mae angen gofal arbennig i'w gwarchod.
47. Dylai unrhyw waith arfaethedig gynnwys asesu pob safle ac adeilad o ran ei gyfraniad at gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, ei werth hanesyddol, ei ffurf adeiladu a'i berfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i oroesiad ei adeiladwaith. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynllunydd sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylai hyd yn oed y gweithrediadau symlaf fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae adeilad penodol yn 'gweithio', ynddo'i hun ac mewn perthynas â'i leoliad. Dylai unrhyw waith i adeiladau mwy ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol fod yn seiliedig ar gynllun cadwraeth a ymchwiliwyd yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn Gynaliadwy <https://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples>
48. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn atal newid ond mae'n ffurfio fframwaith i'r dref ddatblygu ynddo heb golli unrhyw un o'r priodoleddau sy'n ei gwneud yn arbennig.

Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig

49. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân. Mae rheolaeth adeilad rhestredig yn cael ei weithredu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a rheolaeth Henebion Cofrestredig gan Cadw. Mae rhestru adeiladau yn cynnwys eu tu allan, y tu mewn a'r cwrtiau hanesyddol (y myth cyffredin yw bod rhestru'n berthnasol i ffasadau yn unig).

Cynnal a Chadw

50. Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i adeilad yw'r ffordd orau a mwyaf economaidd o warchod ei adeiladwaith. Cyfrifoldeb perchnogion a phreswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad sy'n cael ei ofalu amdano yn cadw ei werth a bydd yr angen am waith atgyweirio helaeth yn cael ei osgoi. Y mater pwysicaf yw amddiffyn rhag dŵr a thamprwydd yn treiddio drwodd. Y pethau cyntaf y dylid eu hatgyweirio yw toeau, landeri a pheipiau dŵr. Efallai y bydd perchnogion adeiladau mawr yn ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn

seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

Gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd

51. Dylai perchnogion adeiladau a phreswylwyr sicrhau bod y tasgau canlynol yn cael eu gwneud yn rheolaidd:
 - **Clirio dail a malurion** yn enwedig ar ôl yr hydref, a chanolbwyntio'n benodol ar gwteri a nwyddau dŵr glaw. Cyfnod o law trwm yw'r amser gorau i weld unrhyw ddiffygion.
 - **Rheoli twf planhigion** sy'n gallu cyflymu dirywiad ac weithiau achosi niwed i strwythur adeiladau. Dylid lladd eiddew trwy ei dorri wrth ymyl y ddaear a gadael iddo wywo cyn ceisio tynnu'r gwreiddiau o'r wal. Mae angen sbot-drin falerian.
 - **Chwilio am ymosodiadau gan bryfed a dadfeiliad ffwngaidd** sy'n gallu cael eu hachosi gan damprowydd ac awyru gwael.
 - **Cadw golwg ar yr awyru** i sicrhau nad yw unrhyw ddelltiau sy'n awyru manau o dan y lloriau wedi'u blocio. Gall diffyg awyru arwain at amodau lle gall dadfeiliad ffwngaidd gydio.
52. Dylai gwaith cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am atgyweiriadau mawr i'r holl i bob adeilad, a dylai atgyweirio nodweddion gwreiddiol fod yr opsiwn cyntaf i'w ystyried bob amser. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau yn cyrraedd diwedd eu hoes yn y pen draw, ac os felly bydd yn rhaid ystyried eu newid gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio profedig. Y dewis arall yw colli gwerth hanesyddol adeiladau unigol ac erydiad graddol diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas atgyweirio unrhyw adeiladau yn yr ardal gadwraeth yw atal, neu arafu o leiaf, y broses ddadfeilio heb niweidio na newid nodweddion sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd hanesyddol/pensaernïol.
53. Gall diffyg gwaith cynnal a chadw parhaus arwain at ddirywiad yn adeiladwaith yr adeilad, er enghraifft, os oes gwteri ar goll neu os na chaiff toeau sy'n gollwng eu hatgyweirio, sy'n golygu bod dŵr yn treiddio i rannau bregus o'r adeilad.

Toeau

54. Toeon ardal drefol sy'n ffurfio'r nenlinell a phroffil gweledol strydlyn ac mae'n rhan bwysig iawn o'i hunaniaeth. Y cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a chrynswth sy'n creu'r 'het', sy'n eistedd uwchlaw'r adeilad ac sy'n hanfodol i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion yn weledol ar lefel y stryd bob amser, mae'r topograffi lleol yn caniatáu golygfeydd tuag at, ar draws a thros y toeon o rannau gwahanol o'r dref. Mae'r to, yn ôl ei natur, yn rhan hollbwysig o amddiffyniad adeilad rhag y tywydd ac, fel y cyfryw, dyma un o'r manau pwysicaf i ganolbwyntio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio rheolaidd arno.

Gorchuddion Toeon

55. Mae mwyafrif yr adeiladau'n defnyddio llechi naturiol, a dylid defnyddio'r rhain ar gyfer unrhyw waith atgyweirio neu amnewid. Dylai cribau, bargodion a manylion eraill gael eu gosod mewn mortar gydag uniadau bôn. Nid yw'n briodol defnyddio teils concred a chlai.
56. Mae llechi naturiol wedi'u mewnfurio sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu gruglas y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-efeithiol, ond mae'n bwysig cael y llechi o chwarel ag enw da er mwyn osgoi problemau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chydnewydded pan fydd y llechi'n cael eu treulio gan y tywydd. Mae llechi artiffisial, er eu bod weithiau'n anodd eu gwahaniaethu oddi wrth ddeunydd naturiol pan fyddant yn newydd, yn hindreulio mewn ffordd wahanol a bydd, dros amser, yn ymddangos yn wahanol i'r cynnyrch go iawn. Os caiff y to ei inswleiddio, dylid ei osod ar lefel y nenfwd, neu rhwng y trawstiau, os yw'r awyru'n ddigonol (drwy fylchau yn y bondo, nid tyllau aer sy'n cael eu gosod gan y perchennog ar oleddf y to). Bydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to gan arwain at broblemau posibl mewn manylion yn y bondo a lle mae'n ffinio ag adeiladau eraill. Fodd bynnag, gall cyflwyno lefelau uchel o inswleiddiad mewn adeiladau hŷn achosi anwedd a dirywiad dilynol.

Ffenestri To a Dormerau

57. Pan gaiff croglofftydd eu trawsnewid a bod angen ffenestri to neu ddormerau, dylid eu gosod fel arfer ar y wedd gefn gan eu bod yn torri ar draws llinell barhaus goleddf y to ar ochr y stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd, lle nad oedd dormerau yn bodoli o'r blaen, lle y bo'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a maint a chydbwysedd ffurf a chrynswth yr adeilad. Lle mae dormerau gwreiddiol yn bodoli, dylid hefyd osgoi unrhyw newidiadau i'r mesuriadau a'r maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern o ffenestri to haearn bwrw cynnar (i'r mesuriadau a'r maint cywir, ynghyd â bar gwydro fertigol) er mwyn cadw cymeriad y to cymaint â phosibl. Mae gan lawer o weithgynhyrchwyr ffenestri Ffenestri To Cadwraeth gwydr dwbl arbennig, sydd wedi'u dylunio i eistedd o fewn arwyneb y to.

Simneiau a Photiau Simnai

58. Mae cynnau a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb ac amrywiaeth y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simneiau a'u hatgyweirio gan osod potiau clai newydd yn ôl yr angen. Pan fydd corn gwreiddiol wedi'i wneud yn fyrrach, yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Lle nad oes unrhyw dystiolaeth o batrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw at yr arddull leol, fel arfer gyda chyrtsiau corbelog yn bargodi ar y pen. Mae'r mwyafrif o'r cynnau simnai yn rhai brics coch, ond beth bynnag fo'r deunyddiau, dylid dilyn yr adeiladwaith gwreiddiol.

Panelli Solar Dŵr a Phaneli Solar Ffotofoltäig

59. Bydd yr angen i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn cael ei gydbwysu yn erbyn yr angen i amddiffyn cymeriad ac ymddangosiad yr ardal wrth ddelio â chynigion

ar gyfer paneli solar mewn Ardaloedd Cadwraeth. Oherwydd sensitifrwydd yr Ardal Gadwraeth i addasiadau modern, bydd angen ystyried lleoliad a dyluniad y paneli yn ofalus.

60. Serch bod y deiliad tŷ cyfredol wedi cael hawliau datblygu, bydd gofyn ystyried gosod offer microgynhyrchu ar brif weddau adeiladau neu mewn lleoliadau amlwg o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn ofalus. Dylid ystyried lleoliadau amgen yng nghefn adeiladau, ar dai allan atodol neu wedi'u gosod ar y ddaear, lle na fyddai'r paneli yn weladwy o'r briffordd. Ni ddylai paneli estyn allan fwy na 200mm o'r to neu arwyneb y wal. Mae llechi solar a nifer gynyddol o gynnyrch o 'ystod dreftadaeth' ar gael.
61. Dylai'r paneli fod o liw tywyll a dylai'r fframiau fod yn llwyd neu ddu mat. Dylid osgoi paneli glas lliw golau safonol gyda fframiau llwyd golau adlewyrchol.

Landeri a Pheipiau Dŵr

62. Dylid ystyried defnyddio landeri haearn bwrw traddodiadol (neu alwminiwm bwrw) wrth adfer adeiladau treftadaeth. Dylid defnyddio landeri hanner crwn syml bob amser ar adeiladau cynharach. Mae landeri hanner crwn a rhai patrwm pigfain yn addas ar gyfer adeiladau diweddarach. Nid yw deunyddiau uPVC rhatach mor gryf ag haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac maent yn fwy agored i effaith a difrod tywydd, yn ogystal â chamdroad, sydd weithiau'n effeithio ar raddiant a chwymp naturiol landeri gyda'r risg o ganlyniad o ollyngiadau a threiddiad dŵr i mewn i adeiladwaith yr adeilad. Gall uPVC o ansawdd uwch fod yn addas mewn cyd-destun modern neu i weddau llai.

Ffenestri a gwydro

63. Ffenestri yw 'llygaid' adeilad a chanolbwynt ei gymeriad. Ffenestri codi llithro â hongiad dwbl sydd i'w gweld yn bennaf yn yr ardal gadwraeth. Mae newidiadau i fesuriadau agoriadau ffenestri a/neu'r ffenestri eu hunain bob amser yn cael effaith andwyol ar ffasâd yr adeilad yn gyffredinol. Dylid osgoi ymgorffori holltau awyru, oherwydd eu heffaith andwyol ar y cymeriad cyffredinol.
64. Dylid cadw ac atgyweirio ffenestri codi gwreiddiol bob amser, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml iawn y bydd angen gosod rhai newydd yn eu lle. Mae dadfeiliad fel arfer i'w weld o gwmpas y siliau lle gellir asio pren newydd i mewn. Mae'r gwydr crwm neu'r gwydr silindr gwreiddiol yn deneuach gydag arwyneb mwy anwastad o gymharu â gwydr nofiol modern gan roi adlewyrchiadau mwy cynnil, a lle mae wedi goroesi, dylid ei gadw bob amser. Mae'n debygol y bydd angen pwysau ffenestr trymach ar wydr modern trymach er mwyn gwrthbwysu'r ffenestr. Pan fydd yn rhaid gosod ffenestr newydd, yn hytrach na'i hatgyweirio, dylai'r ffenestr newydd fod yn un bren a dylai gyd-fynd yn union â'r ffenestr wreiddiol. Lle bo gwydr dwbl yn bosibl, rhaid rabelu'r unedau wedi'u selio yn draddodiadol a rhaid iddynt fod o fanyleb fain er mwyn caniatáu manylion saernïaeth main traddodiadol. Dylid cadw silliau ffenestr llechi gwreiddiol lle y bo'n bosibl.

65. Mae cael gwared â ffenestri anghydnaws nad ydynt yn wreiddiol i'r adeilad, a gosod rhai i efelychu'r math a'r patrwm hanesyddol yn cael ei annog. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol wedi cael eu newid yn amhriodol, bydd ffenestri o ddeunyddiau anhraddodiadol sy'n efelychu'r dyluniad gwreiddiol yn cael eu hystyried yn ffafriol, yn amodol ar gytuno ar y fanyleb fanwl. Bydd angen caniatâd cynllunio o fewn Erthygl 4(2).
66. Lle mae deiliaid tai yn dymuno efelychu ffenestri anhraddodiadol presennol, ni fydd angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod y ffenestri yn dyddio cyn dynodiad yr ardal gadwraeth a chynigir atgynyrchiadau union gywir.
67. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol neu hanesyddol wedi goroesi ac mae posib eu hatgyweirio a'u huwchraddio, ni roddir caniatâd cynllunio i ailosod deunyddiau eraill o fewn Erthygl 4 (2).

Drysau

68. Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a gwydro hefyd yn berthnasol i ddrysau. Lle y bo'n bosibl, dylid cadw ac atgyweirio drysau pren traddodiadol. Pan fo angen drysau newydd, dylent ddilyn arddull y drws gwreiddiol os yw'n hysbys, neu dylai gyd-fynd â'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Er bod patrymau drysau traddodiadol, ar y cyfan, yn fwy amrywiol na ffenestri, mae rhai egwyddorion cyffredinol yn berthnasol. Nid oedd drysau ffrynt wedi'u gwydro fel arfer, pan oedd ganddynt ffenestri linter uwchlaw, er bod gan eiddo Fictoraidd ac Edwardaidd diweddarach wydr barugog ac/neu addurnedig yn lle'r paneli uchaf yn aml. Rhaid cadw, atgyweirio a chynnal a chadw ffenestri linter, casinau drysau a nodweddion ategol eraill bob amser. Mae cynllun ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig a dylai gyd-fynd â chynllun ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi handlenni lifer allanol.
69. O fewn ardal Erthygl 4(2), nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer atgyweirio neu amnewid drws hanesyddol am un sydd yn union yr un fath â'r hen un, a lle mae deiliaid tai yn dymuno atgynhyrchu drysau anhraddodiadol presennol, ni fydd angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod y drysau yn dyddio cyn y dynodiad ardal gadwraeth a bod union atgynyrchiadau yn cael eu cynnig.

Portshys a chanopiâu

70. Dylai portshys a chanopiâu adlewyrchu traddodiadau lleol o symlrwydd a defnyddioldeb, gyda chanopiâu gwastad, neu gyda bracedi neu doeon ar oledd. Dylid atgyweirio neu adfer casinau drws mwy addurnedig.

Mynediad i bobl anabl

71. Mae angen darparu mynediad i bobl anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Mae bob amser yn bwysig sicrhau y caiff y rheoliadau a'r canllawiau ategol eu dehongli'n gywir ar gyfer Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle y gwneir gwaith o'r math hwn, dylid gwneud hynny mewn modd sensitif a gan ystyried egwyddorion cyffredinol

mesuriadau, cynllun, deunyddiau a chreffftwaith sy'n berthnasol i'r adeilad cyfan.

Gwaith Pwyntio a Gorffeniadau Waliau

72. Mae'n well defnyddio mortar calch yn hytrach na mortar sment caled ar atgyweiriadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylai gwaith pwyntio cerrig a brics, ar atgyweiriadau ac adeiladau newydd, ddilyn manylion traddodiadol, gydag uniadau cyfwyneb, cilannog neu ddwbl, gan sicrhau nad yw'r mortar yn ymestyn dros y brics neu'r cerrig o'i amgylch. Dylid defnyddio'r un deunydd yn lle mortar calch presennol bob amser a dylid ceisio cyngor ar gyfansoddiad neu dechnegau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau yr Awdurdod. Mae'n dderbyniol defnyddio rendr yn y mwyafrif o achosion, ac mae'n well cael gorffeniad llyfn - dylid defnyddio rendr calch ar gyfer atgyweiriadau neu estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylid ei orffen mewn lliw pastel.
73. Mae hongian llechi yn arfer traddodiadol ar gyfer gweddau agored (sydd hefyd yn gyfle i inswleiddio pan fyddant newydd eu hadeiladu). Rydym yn annog pobl yn gryf i beidio â chael gwared â llechi hongian hanesyddol.

Blaenau Siopau ac Arwyddion

74. Mae'r blaen siop traddodiadol yn ffurfio 'ffrâm' ar gyfer yr arddangosfa ffenestr, sy'n cynnwys y ffasgia uwchben, y rhan o dan y ffenestr a'r pilastrau bob ochr. Dylai mesuriadau pob rhan greu cyfansoddiad cytbwys. Gall y fynedfa i'r adeilad fod yn y canol neu ar un ochr yn dibynnu ar led yr eiddo. Dylid cadw ac atgyweirio stepiau addurnedig mewn drysau cilfachog. Dylai'r ffasgiâu gael eu gorffen ar y brig gyda mowldiad cornis a'i ddal bob ochr gan gynhalbost neu gorbél, sy'n gweithredu fel capan colofn i'r pilastrau. Bydd y defnydd o deils ar y rhan o dan y ffenestri yn helpu i wrthsefyll dŵr ac yn rhoi manylyn traddodiadol.
75. Dylai blaenau siopau traddodiadol sy'n bodoli, neu elfennau sydd wedi goroesi, gael eu cadw a'u hatgyweirio lle bynnag y bo'n bosibl. Gellir cuddio nodweddion gwreiddiol o dan arwynebau diweddarach. Pan fydd blaenau siopau wedi'u colli'n llwyr ond bod tystiolaeth ffotograffig o'u cynllun gwreiddiol yn bodoli, atgynhyrchiad manwl fydd y dewis mwyaf priodol. Lle nad oes tystiolaeth o'r gwreiddiol yn bodoli, gellid defnyddio cynllun modern sy'n dilyn egwyddorion y 'fframio' gwreiddiol. Pan fydd adeiladau ar wahân wedi'u cyfuno i greu un uned, dylai pob adeilad gael ei wyneb unigryw ei hun er mwyn cynnal rhythm a mesuriadau'r strydlun. Ni ddylai'r un ffasgia gario dros y ddau ffasâd. Dylid isrannu'r ffenestr yn fertigol er mwyn cynnal mesuriadau nodweddiadol yr adeilad a'r cyd-destun. Dylai llythrennu a dyluniad graffigol fod yn gymesur, yn briodol i'r cyd-destun ac nid yn generig.
76. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddylunio blaen siop.

Lliw

77. Mae lliw hefyd yn rhan bwysig o nodweddion cyffredinol y dref. Dylai'r rendr fod fel rheol mewn lliwiau pastel a dylai pren wedi'i baentio fod yn llwydwyn gyda lliwiau cryf fel arfer wedi'u cadw ar gyfer drysau ffrynt, rheiliau a blaenau siopau.

Muriau Terfyn a Rheiliau

78. Mae llawer o strydoedd ac eiddo preswyl wedi cadw cyrtiau blaen muriog neu rheiliog, sy'n hollbwysig i gymeriad arbennig yr ardal gadwraeth. Mae angen rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw muriau terfyn a rheiliau yn cael eu tynnu i ganiatáu parcio ac nad ydynt yn cael eu hamnewid yn amhriodol.
79. Yn gyffredinol dylid paentio gwaith haearn mewn lliwiau tywyll neu i gyd-fynd â 'lifrai' y tŷ. Mae'n well osgoi'r 'du ac aur treftadaeth' a geir ym mhobman.
80. Mae gerddi ffrynt yn amwynder lleol pwysig. Maent yn cyfoethogi'r ardal gadwraeth yn weledol a gallant ddarparu draeniad cynaliadwy.

Datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth

81. Yn gyffredinol, pan gynigir datblygiadau a/neu estyniadau newydd, mae'n bwysig eu bod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio cadarn, yn ogystal â manylion apelgar mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol. Mae'n arbennig o bwysig osgoi atebion safonol pa un ai mewn cyd-destun domestig neu fasnachol. Dylai pob math o ddatblygiad newydd o fewn yr Ardal Gadwraeth:
- Gadw ac atgyfnerthu 'nodweddion unigryw lleol' a chymeriad yr ardal gadwraeth, yn cynnwys patrymau strydoedd, mannau agored a choed, ffiniau lleiniau a thriniaethau ffiniau;
 - Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriad datblygiadau presennol;
 - Ymateb i rythm a mynegiad penodol israniadau'r strydlun a'r adeiladau unigol o ran baeau ac agoriadau sy'n ymyrryd ar y ffasâd;
 - Atgyfnerthu cymeriad a graen unigryw ardal gymeriad benodol yr ardal gadwraeth, trwy ddealltwriaeth wybodus o'i ffurfiau adeiladu a'i harddulliau, nodweddion a deunyddiau;
 - Parchu maint a chasgliad adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol nad yw datblygiad newydd yn anghyson â'r adeiladau presennol oherwydd ei uchder, lefelau llawr, maint ffenestri a drysau, casgliadau cyffredinol a thoeau;
 - Cynnal golygfeydd a fistâu allweddol i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth; a
 - Lle bo modd, lleihau effaith weledol cerbydau sydd wedi'u parcio a'r llefydd parcio a ddarperir ar y strydlun a gosodiad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.
82. Lle y caiff datblygiadau newydd eu cynnig ar gyfer ardaloedd sydd gerllaw'r ardal gadwraeth, yn hytrach nag ynddi, bydd cyn bwysiced cymryd gofal ac ystyried effaith y cynllun arfaethedig ar osodiad yr ardal gadwraeth. Lle y bo'n briodol, dylai pob math o ddatblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw penodol i'r canlynol:
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn dilyn yr un maint, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu nodweddion pensaernïol nodedig y cyd-destun uniongyrchol;
 - Ystyried effaith datblygiadau newydd ar olygfeydd a fistâu allweddol;
83. Efallai y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd da yn briodol yn yr ardal gadwraeth, y peth pwysig yw osgoi datblygiad anghyson, gradd isel, anghynnif a llachar.
84. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am rai mathau o ddatblygiad gynnwys datganiad dylunio a mynediad. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddatblygiadau mawr, ac mewn perthynas â datblygiad mewn Ardaloedd

Cadwraeth, datblygiadau ar gyfer un neu fwy o anheddau neu ar gyfer darparu adeiladau ag arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr neu fwy. Mae canllawiau manwl pellach ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad i'w gweld yn nogfen Llywodraeth Cymru/Comisiwn Dylunio Cymru [Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut.](#)

85. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i rai ceisiadau (Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth) gynnwys Datganiad Effaith ar Dreftadaeth (HIS). Nod hyn yw sicrhau bod arwyddocâd yr ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynigion. Mae'r HIS yn cael ei lywio gan y broses o gynnal Asesiad Effaith ar Dreftadaeth (HIA), sydd â'r nod o gynorthwyo gyda dylunio datblygiad priodol trwy asesu'r effaith ar arwyddocâd. Darperir canllawiau manwl pellach ar y broses HIA yng nghanllaw arfer gorau CADW - [Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru.](#)

Dymchwel

86. Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel adeilad gyda chyfanswm cynnwys ciwbig sy'n fwy na 115 metr ciwbig ac i ddymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n fwy nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu fwy na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth.
87. Mae dymchwel adeilad rhestredig (neu unrhyw ran ohono) heb gydsyniad adeilad rhestredig yn drosedd.

Dysglau Lloeren ac Antenau.

88. Ni chaniateir gosodiadau o'r fath os ydynt yn gorwedd ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu priffordd neu sy'n weladwy o briffordd. Bydd ceisiadau sy'n cynnwys darparu dysglau/antenau mewn lleoliadau o'r fath yn cael eu gwrthwynebu.

Safonau Dylunio Priffyrdd

89. Mae'r rhain yn benderfynyddion pwysig iawn o ragoriaeth a sensitifwydd dylunio mewn ardaloedd hanesyddol. Anogir yr Awdurdod Priffyrdd i barhau i weithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Tref i wneud y defnydd gorau o safonau dylunio, i fod yn hyblyg lle bo hynny'n briodol ac i ddefnyddio'r deunyddiau a'r gorffeniadau mwyaf priodol lle mae adnoddau ariannol yn caniatáu. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau.

Tir y Cyhoedd

90. Er bod cadwraeth a gwella eiddo preifat yn yr ardal gadwraeth yn bwysig, mae ardaloedd a nodweddion cyhoeddus (polion, ceblau, arwyddion, meinciau, biniau, goleuadau ac ati) yn cael effaith sylweddol ar rinweddau arbennig yr ardal. Wrth weithio gyda'r asiantaethau perthnasol, tynnir sylw at rinweddau arbennig yr ardal gadwraeth wrth ddarparu seilwaith priodol.

Ardaloedd Agored Hanfodol

91. Amlygir sawl ardal felly yn yr arfarniad, ardaloedd gan gynnwys gerddi bach preifat a gerddi cyhoeddus, ac ardal y porthladd. Mae'r lleoedd rhwng adeiladau yn hanfodol i'w lleoliad, yn ogystal ag i les y cyhoedd. Mae'r cyfle i ddatblygu yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig ar y cyfan a bydd yn cael ei wrthsefyll oni bai y gellir dangos nad oes unrhyw effaith andwyol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae rhai ardaloedd yn cynnig cyfle i wella.

Coed a Gwrychoedd

92. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i warchod coed, gwrychoedd a choetiroedd trwy wneud Gorchmynion Cadw Coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn Ardaloedd Cadwraeth nad ydynt yn destun Gorchmynion Cadw Coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, diffrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid amddiffyn y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.
93. Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn Ardaloedd Cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

Rheoli a Gorfodi

94. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bwerau cynllunio presennol i unioni materion fel cyflwr gwael tir ac adeiladau, hysbysiadau gwaith brys a hysbysiadau atgyweirio ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a strwythurau heb eu rhestru. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mân waith adeiladu ar eiddo preswyl, gyda rhai cyfyngiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Trwy ddefnyddio 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2)', gellir cyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir ymhellach, ar gyfer datblygiadau preswyl.
95. Arolygir yr Ardal Gadwraeth bob tair blynedd i sefydlu a oes bygythiad gwirioneddol a phenodol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth, a oes angen gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar draws yr Ardal Gadwraeth gyfan, a pha mor effeithiol yw'r darpariaethau'r ddogfen hon.

Atodiad A: Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol

1. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diffinio o dan adrannau 91 (gan gyfeirio at adran 69) [Deddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990](#) fel:
 2. *“ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad”.*
 3. Mae adran 69 o'r Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi'r meysydd hyn, ac o dan adran 71 o'r Ddeddf, o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd hyn. Mae Adran 72 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi *'sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno'*.
 4. Mae adran 74 o'r Ddeddf yn rheoli dymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth trwy ei gwneud yn ofynnol i gael Caniatâd Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ddymchwel adeiladau o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn ddarostyngedig i rai eithriadau a wneir o dan adran 75 o'r Ddeddf. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i Adeiladau Rhestredig, Henebion Rhestredig (SAMs) nac i ddymchwel adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig, gan fod gwaith o'r fath yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân.
 5. Mae Deddf [yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2016](#) yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno mesurau ar gyfer rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol yn gadarnhaol, megis ei gwneud yn ofynnol bod pob cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ac am Gydsyniad Ardal Gadwraeth yn cynnwys Datganiadau Effaith ar Dreftadaeth (gweler adran 6). Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a'i ddiweddarau.
 6. Mae [Polisi Cynllunio Cymru \(PCC\) \(11^{eg} Argraffiad\)](#) yn cynnwys canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod Ardaloedd Cadwraeth fel asedau hanesyddol ac sy'n cydnabod yr angen i'r system gynllunio amddiffyn, gwarchod a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol, gan gynnwys ystyried eu lleoliadau. Pwysleisir yr angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith cynnig ar arwyddocâd ased hanesyddol. Mae'n egluro bod *amddiffyn, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol... wrth ddylunio cynigion newydd.*
 7. Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth yw *diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un*

pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus. Mae'r polisi hefyd yn nodi 'dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad' ac mae'n gosod 'rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu, gan gynnwys hysbysebion, a fyddai'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol...'. Mae'r rhagdybiaeth hon yn berthnasol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae datblygiad yn ddymunol ar sail budd y cyhoedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn esbonio y gall Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli gynorthwyo gyda swyddogaethau rheoli datblygu ac y dylai penderfyniadau dylunio sy'n ymwneud â chymeriad fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun.

8. Mae [**Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 24**](#) yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol manwl pellach sy'n ymwneud â phwnc yr amgylchedd hanesyddol ac, yn benodol, sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol trwy'r broses gynllunio. Mae'r adran ar Ardaloedd Cadwraeth yn ymdrin ag agweddau gan gynnwys eu dynodiad a'u hadolygiad, Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth, Cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth, Cydsyniad Ardal Gadwraeth, Rheoli Hysbysebu, Coed, Gorfodi ac Apeliadau. Mae diffinio cymeriad pob ardal gadwraeth a nodi polisïau ar gyfer cadw a gwella trwy Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli, yn y drefn honno, yn cael eu hystyried yn ffyrdd o ddarparu sylfaen gadarnach ar gyfer polisïau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu.
9. Mae [**Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 12**](#) yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n gysylltiedig â dylunio a'i nod yw hwyluso dyluniad da a chynaliadwyedd trwy'r system gynllunio. Mae'n nodi buddion defnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad fel offer cyfathrebu i amlinellu sut mae dyluniad y cynnig datblygu wedi'i ystyried o'r cychwyn cyntaf a sut mae amcanion dylunio da wedi llywio hyn. O ran yr amgylchedd hanesyddol a'r Ardaloedd Cadwraeth, yn benodol, mae'n egluro y bydd angen mwy o gyfarwyddyd a chyngor gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar sut y gellir darparu ar gyfer datblygiad newydd a rheoli newid mewn ardaloedd o gymeriad arbennig.
10. Mae CADW wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau arfer gorau i gefnogi'r newidiadau i ddeddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf perthnasol o'r rhain yw [**Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru**](#), sydd â'r nod o sicrhau dull cyson o ddynodi, gwerthuso a rheoli Ardaloedd Cadwraeth. O ran arfarniadau, mae'r rhain yn cael eu gweld fel offer hanfodol ar gyfer rheoli ardaloedd sydd eisoes yn bodoli yn gadarnhaol. Mae'n egluro eu pwrpas, y potensial i weithio gyda chymunedau lleol, cyrff trydydd sector ac ymddiriedolaethau archaeolegol, cofnodi adeiladau ac elfennau eraill, ffynonellau gwybodaeth, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ar gynnwys. Mae ein canllawiau arfer gorau ar faterion cysylltiedig yn cynnwys [**Rheoli Nodweddiion Hanesyddol Cymru**](#), [**Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru**](#) a [**Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru**](#). Yn 2011 cyhoeddodd Cadw hefyd: [**Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy**](#).

